# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 55
19/04/21

## Y ffordd i Emaus

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes
Kathryn Williams a Gwyn Rhydderch


An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Stori

## Fersiwn Beibl.net



Yr un diwrnod, roedd dau o ddilynwyr Iesu ar eu ffordd i bentref Emaus, sydd ryw saith milltir o Jerwsalem. Roedden nhw'n sgwrsio am bopeth oedd wedi digwydd. Wrth i'r drafodaeth fynd yn ei blaen dyma Iesu'n dod atyn nhw a dechrau cerdded gyda nhw. Ond doedden nhw ddim yn sylweddoli pwy oedd e, am fod Duw wedi'u rhwystro rhag ei nabod e.

Gofynnodd iddyn nhw, "Am beth dych chi'n dadlau gyda'ch gilydd?" Dyma nhw'n sefyll yn stond. (Roedd eu tristwch i'w weld ar eu hwynebau.) A dyma Cleopas, un ohonyn nhw, yn dweud, "Mae'n rhaid mai ti ydy'r unig berson yn Jerwsalem sydd ddim yn gwybod beth sydd wedi digwydd y dyddiau dwetha yma!" "Gwybod beth?" gofynnodd. "Beth sydd wedi digwydd i Iesu o Nasareth," medden nhw. "Roedd yn broffwyd i Dduw ac yn siaradwr gwych, ac roedd pawb wedi'i weld yn gwneud gwyrthiau rhyfeddol. Ond dyma'r prif offeiriaid a'r arweinwyr crefyddol eraill yn ei arestio a'i drosglwyddo i'r Rhufeiniaid i gael ei ddedfrydu i farwolaeth, a'i groeshoelio. Roedden ni wedi gobeithio mai fe oedd y Meseia oedd yn mynd i ennill rhyddid i Israel. Digwyddodd hynny echdoe – Ond mae yna fwy …yn gynnar y bore ma dyma rai o'r merched oedd gyda ni yn mynd at y bedd lle roedd ei gorff wedi cael ei osod, ond doedd y corff ddim yno! Roedden nhw'n dweud eu bod nhw wedi gweld angylion, a bod y rheiny wedi dweud wrthyn nhw fod Iesu'n fyw. Felly dyma rai o'r dynion oedd gyda ni yn mynd at y bedd i edrych, ac roedd popeth yn union fel roedd y gwragedd wedi dweud. Ond welon nhw ddim Iesu o gwbl."



"Dych chi mor ddwl!" meddai Iesu wrth y ddau roedd e'n cerdded gyda nhw, "Pam dych chi'n ei chael hi mor anodd i gredu'r cwbl ddwedodd y proffwydi? Maen nhw'n dweud fod rhaid i'r Meseia ddioddef fel hyn cyn iddo gael ei anrhydeddu!" A dyma Iesu'n mynd dros bopeth ac yn esbonio iddyn nhw beth roedd Moses a'r proffwydi eraill wedi'i ddweud amdano yn yr ysgrifau sanctaidd.

Pan oedden nhw bron â chyrraedd pen y daith, dyma Iesu'n dweud ei fod e'n mynd yn ei flaen. Ond dyma nhw'n erfyn yn daer arno: "Tyrd i aros gyda ni dros nos; mae'n mynd yn hwyr." Felly aeth i aros gyda nhw. Pan oedden nhw'n eistedd wrth y bwrdd i fwyta, cymerodd dorth o fara, ac adrodd gweddi o ddiolch cyn ei thorri a'i rhannu iddyn nhw. Yn sydyn dyma nhw'n sylweddoli mai Iesu oedd gyda nhw, a'r foment honno diflannodd o'u golwg.

*Luc 24:13-31 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Roedd dau ffrind ar eu ffordd adref o Jerwsalem i Emaus. Wrth gerdded roedden nhw'n siarad am beth oedd wedi digwydd yn Jerwsalem. Ymunodd dyn arall â nhw a dechreuodd gerdded gyda nhw. "Am beth ydych chi yn siarad?" holodd y dyn dieithr. Atebon nhw, "Dwyt ti ddim wedi clywed beth sydd wedi digwydd? Mae Iesu wedi marw!" Dywedodd y dyn wrth y ffrindiau beth oedd gan y proffwydi i'w ddweud am Iesu. Roedd wedi nosi erbyn iddynt gyrraedd Emaus felly dyma nhw'n gwahodd y dyn i'w cartref am fwyd. Cyn cael swper gweddiodd y dyn a chymerodd y bara a'i dorri yn ddau cyn ei rannu. Dyma'r ddau ffrind yn sylweddoli mai Iesu oedd y dyn dieithr ond diflannodd o ar y foment honno.



# Cwestiynau i'w trafod



Ar ôl darllen y stori gyda'ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Wyt ti wedi methu adnabod rhywun wyt ti'n eu hadnabod yn dda rhywdro? Pam?
2. Beth oedd Cleopas a'i ffrind yn siarad amdano wrth iddyn nhw gerdded i Emaus?
3. Beth fuaset ti eisiau ei ofyn i Iesu am yr hyn ddigwyddodd iddo adeg y Pasg?
4. Pryd wnaeth Cleopas a'i ffrind adnabod Iesu? Beth wnaethon nhw wedyn?




# Gweddi fer

O Dduw, diolch i Ti fod Iesu'n fyw. Diolch i Ti fod Iesu gyda ni bob dydd.
Plîs helpa fi i adnabod Iesu'n well.
Amen.


Stori i'w lliwio

# Y ffordd i Emaus

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Wedi i Iesu farw roedd ei ffrindiau'n drist iawn. Doedden nhw ddim yn deall fod ei farwolaeth yn rhan o gynllun rhyfeddol Duw!



Roedd dau ffrind yn cerdded yn ddigalon iawn ar hyd y ffordd i Emaus. Tra roedden nhw wedi bod yn Jerwsalem roedd Iesu wedi cael ei ladd ar groes.



Roedd y dynion hyn a'u ffrindiau wedi meddwl mai Iesu oedd y Mab roedd Duw wedi ei addo i Israel. Yn awr roedd rhai o ffrindiau Iesu'n dweud ei fod wedi dod yn ôl o farw'n fyw.




Tra roedden nhw'n sgwrsio, daeth dyn dieithr a dechreuodd gyd gerdded â nhw. "Pam ydych chi mor ddigalon?"gofynnodd iddynt. "Mae'r holl bethau hyn wedi eu hysgrifennu amdanynt yn y Beibl."



Dywedodd y dyn dieithr wrthynt fod y cyfan a ddigwyddodd i Iesu'n rhan o gynllun Duw. Enynnodd ei eiriau obaith yn eu calonnau.



Pan gyrhaeddon nhw adref fe wnaethon nhw wahodd y dyn dieithr i'w cartref am bryd o fwyd. Cymerodd y dyn y bara a'i dorri ac yna diolchodd i Dduw amdano.



Yna diflannodd y dieithryn! Iesu oedd wedi diolch am y bara a'i dorri! Roedd y ddau ffrind yn gwybod eu bod wedi gweld Iesu! Roedd o'n fyw!



Rhedon nhw ar eu hunion i Jerwsalem i ddweud wrth holl ffrindiau Iesu eu bod wedi ei weld ac am bopeth roedd o wedi eu dweud wrthynt amdano ei hun ac a ysgrifennwyd amdano yn y Beibl .

# Sialensau



## Pwy ydw i?

Beth am wisgo i fyny fel rhywun arall - fel aelod o dy deulu, athro ysgol neu rywun enwog - a gofynna i dy deulu ddyfalu pwy wyt ti. Cofia wneud ymdrech i newid dy lais hefyd!





## Beth ydy o?

Fedri di adnabod y pethau hyn?
Mae'r atebion ar waelod y dudalen nesaf.







## Dyfalu beth ydy'r gwrthrychau yn y bag



Rho ychydig o wrthrychau mewn bag e.e. tegan, brwsh, llwy, tâp selo, a.y.y.b. Bydd angen i bob chwaraewr gymryd ei dro i roi ei law yn y bag,teimlo'r eitem ac yna dyfalu pa wrthrych mae wedi gafael ynddo.

## Wnes i ddim sylwi o'r blaen...



Edrycha allan drwy'r ffenest, neu dos allan i'r ardd neu am dro ac edrycha'n ofalus ar bopeth wyt ti'n ei weld. Gwna restr o 10 peth nad wyt ti wedi sylwi'n iawn arnyn nhw o'r blaen.


# Dolenni



Fideo o'r stori
https://www.youtube.com/watch?v=TpIJDhnb2AI

Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/r9ZQcQ8aWeM



Cartŵn
https://www.youtube.com/watch?v=zSPhdz4lY2Y






Cartŵn (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=K3QkZsKLU2o

# Posau

Dilyna'r llwybr cywir o gylchoedd i'r pen ac ysgrifenna'r llythrennau yn y llefydd gwag i orffen yr adnod.




Yn sydyn dyma nhw'n sylweddoli ___ ____ ___ ____ ___.

Luc pennod 24 adnod 31

---

Fedri di ddod o hyd i 7 gwahaniaeth rhwng y lluniau hyn?





---

## Llenwa'r bylchau

Defnyddia'r geiriau ar y gwaelod i gwblhau'r stori.

Pan oedden nhw ____ â chyrraedd pen y daith, dyma ____'n dweud ei fod e'n mynd yn ei flaen. Ond dyma nhw'n erfyn yn daer arno: "____ i aros gyda ni dros nos; mae'n mynd yn ____." Felly aeth i ____ gyda nhw. Pan oedden nhw'n eistedd wrth y ____ i fwyta, cymerodd dorth o fara, ac adrodd ____ o ddiolch cyn ei thorri a'i rhannu iddyn nhw. Yn sydyn dyma nhw'n sylweddoli ____ Iesu oedd gyda nhw, a'r foment honno ____ o'u golwg.

Iesu tyrd bwrdd hwyr diflannodd bron gweddi aros mai

**Beth ydy o?**
Atebion…











# Crefft

## Ffon Gerdded



I wneud **Addurn Top y Ffon** byddi angen:

Hen hosan, gwlân cotwm, bandiau elastig, llygaid gwgli, botymau, siswrn, gwlân.






**1.** Llenwa hanner yr hosan â llawer o wlân cotwm.



**2.** Defnyddia fandiau elastig i wneud y pen, y ddwy fraich a'r corff.Gwna'n siŵr fod y bandiau elastig wedi eu clymu'n dynn neu fe fyddant yn syrthio i ffwrdd.




**3.** Gwna'r wyneb drwy ddefnyddio'r glud PVA i lynu'r ddau lygaid gwgli a glyna'r botwm ar gyfer y trwyn.



**4.** Lapia'r gwlân o gwmpas dy law 25 o weithiau ac yna ei dorri.



**5.** Torra ddarn bach o wlân a defnyddia fo i glymu'r darn mawr o wlân.



**6.** Torra'r gwlân i wneud tasel.



**7.** Defnyddia'r glud PVA i lynu'r gwallt.



I wneud y **Ffon Gerdded** byddi angen:

Brigyn hir syth (hyd at tuag uchder dy ysgwydd) ffon fechan, syth, siswrn, addurn top y ffon, tâp inswleiddio. Pethau ar gyfer addurno'r ffon: tâp inswleiddio, llinyn, plu, clychau, glain, a.y.y.b.



**8.** Gwthia'r ffon syth, fechan i mewn i'r hosan ac yn union i fyny i'r corff. (Mae hyn er mwyn sicrhau nad ydy'r addurn yn sigledig).



**9.** Rho waelod yr hosan dros y brigyn hir, syth ac yna defnyddia'r tâp inswleiddio i'w ddal ynghyd â'r ffon fechan, syth.



**10.** I wneud handlen gyfforddus, tynna waelod yr hosan a'i dal yn dynn yn ei lle â thâp inswleiddio .



**11.** Addurna'r ffon â thâp inswleiddio o wahanol liwiau.



**12.** Torra ddarn o linyn a chlyma blu, glain neu glychau a.y.y.b. ynddo.



**13.** Rho'r llinynnau'n sownd yn yr addurn gan ddefnyddio ychwaneg o dâp inswleiddio.

**14.** Ychwanega ychydig mwy o linynnau i dy ffon fel dy fod yn gallu clymu ynddo bethau ddoi di o hyd iddynt ar dy siwrne.

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C | RH | Y | F | E | DD | O | L | U | D | M | I |
| R | D | S | A | P | O | E | L | C | E | E | D |
| O | G | O | I | S | R | W | G | S | DD | S | O |
| E | W | B | A | R | A | I | B | D | R | E | F |
| S | Y | L | W | E | DD | O | L | I | E | I | Y |
| H | R | W | D | E | N | S | I | F | C | A | G |
| O | TH | Y | W | I | E | S | U | L | M | O | T |
| E | I | G | O | T | D | O | B | A | N | D | A |
| L | A | S | I | A | R | A | D | N | M | L | D |
| I | U | DD | Y | W | G | I | D | N | CH | E | U |
| O | P | R | O | FF | W | Y | D | U | A | D | W |
| B | E | DD | M | E | L | A | S | W | R | E | J |

ADNABOD
ATGYFODI
BARA
BEDD
CERDDED
CLEOPAS
CROESHOELIO
DAU
DIFLANNU
DIGWYDD
DUW
EMAUS
ESBONIO
GWEDDI
GWYRTHIAU
IESU
JERWSALEM
MESEIA
PROFFWYD
RHYFEDDOL
SGWRSIO
SIARAD
SYLWEDDOLI

# Gweddi Greadigol

## Gweddi gweld

Yn yr hanes am Iesu'n cerdded ar y ffordd i Emaus, mae Iesu'n egluro llawer i'w ffrindiau. Doedden nhw ddim yn adnabod Iesu ar y dechrau, er eu bod yn ei weld!

**Bydd angen:** papur a phensil neu bin ffelt


**Beth i'w wneud:**

- Os y byddi di'n mynd at yr optegydd rhywbryd bydd angen i ti ddarllen o siart.
- Meddylia am y pethau mae Iesu yn dy helpu i'w gweld neu eu deall yn well.
- Ysgrifenna'r geiriau fel petaen nhw ar siart llythrennau profi llygaid, gyda'r llythrennau yn mynd yn llai ym mhob rhes, fel hyn:

M A E
I E S U
Y N F Y
H E L P U
I DD E A LL
E I F O D Y N
F Y NG H A R U

# Gemau

## Gêm gweld








**Beth fyddi di ei angen:** Pobl

**Sut i chwarae:**

- Bydd pob chwaraewr yn cymryd ei dro i symud aelod o'r corff a bydd y gweddill yn ceisio dyfalu beth mae'n ei wneud. Defnyddiwch symudiadau bychan e.e. wincio, symud un bys, symud bawd troed, symud clust, siglo dy dafod.
- Pan fydd un o'r gwylwyr yn barod i roi'r ateb bydd angen iddo ddweud, "Rwyn gweld" a dweud beth ydy'r symudiad. Os ydy'r gwyliwr yn gywir bydd yn cymryd lle'r un sy'n gwneud y symudiad.
- Os ydy'r gwyliwr yn ateb yn anghywir bydd y gêm yn cario ymlaen hyd nes y bydd un o'r gwylwyr yn dyfalu'n gywir. Os ydy'r gwylwyr yn cael trafferth dod o hyd i'r ateb cywir bydd angen i'r un sy'n gwneud y symudiad wneud ati i wneud y symudiad yn amlycach.

## Gêm Rholio Wyneb




**Bydd angen:**

- Dis
- Papur
- Pensil
- Y tabl gyda'r lluniau arno

**Sut i chwarae:**

- Nod y gêm ydy creu wyneb.
- Mae pob chwaraewr yn cael tro yn taflu'r dis.
- Os oes gennyt ti ddigon, fedr pob chwaraewr gael dis.
- Bydd cael y rhif 1 ar y dis yn rhoi'r dewis i'r chwaraewr o siâp yr wyneb. Bydd cael y rhif 2 yn rhoi'r dewis i'r chwaraewr o siâp y llygaid, rhif 3 - siâp y trwyn , rhif 4 – siâp y geg, rhif 5 – siâp y clustiau a rhif 6 - steil y gwallt.

# Canu

Cerdded. Siarad. Ceisio deall
be sydd newydd ddigwydd yn y ddinas fawr.
Y meistr Iesu - maen nhw'n methu
credu nad yw ef gyda nhw yn awr.

Cerdded. Siarad. Wnaeth un arall
ymuno â'r ddau tra roeddynt ar eu taith.
Gofynnodd iddynt am beth oedden nhw'n trafod
Dywedont am Iesu a beth a wnaeth.

Siaradodd y dyn am gynllun;
Soniodd am y proffwydi amser maith yn ôl.
Gwaredwr mwyaf - nawr roe'nt yn deall;
Sut gallent fod wedi bod mor ffôl?



Diwedd y siwrne, wnaeth y ddau ddweud
"Wnei di aros gyda ni? Fydd 'na fwyd i ni gyd."
Gweddi a ddywedodd a
wnaethon nhw ei gydnabod.
Yn sydyn diflannodd gan eu gadael yno o hyd.

Nawr 'dyn ni'n gweld mai Iesu yw'r Meseia.
Roedd ein calonnau ar dân pan oeddem ar y ffordd.
Rhaid i ni fynd i ddweud wrth bawb
pwy oedd y teithiwr a oedd wrth ein bwrdd;
Dyna'r Iesu atgyfodedig 'dyn ni
newydd gwrdd.

*Hawlfraint 2021 Andy Hughes*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/r9ZQcQ8aWeM

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes: ahughes@saintygymuned.org